# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 1af o Ragfyr 2022 drwy Zoom am 7:00 o'r gloch.**

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn o bell gan ddefnyddio technoleg, oherwydd nad oedd gwres yn Neuadd Chwilog, ac roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc.

1. **Cynllun Peilot ardal Dwyfor** – croesawyd Mrs Catrin Huws, Uwch Swyddog Galluogi Tai Cymunedol, Grwp Cynefin, a Mr Steffan Smith, Rheolwr y Cynllun mewn partneriaeth hefo Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Hwyluswyr Tai Gwledig a Tai Teg. Cynhaliwyd sgwrs ac egluro'r ról a phwrpas y cynllun o flaen y prif gyfarfod. Y pwrpas oedd i adnabod beth yw anghenion tai cymunedau Dwyfor, a chael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa dai yn ein cymuned.

2. **Yn bresennol**: Y Cynghorwyr Sian Angharad Parry (Cadeirydd), Margaret Griffith, Aled Lloyd Evans, Aled Davies, Thomas Prys Jones, Delyth Parry, Darren Morley, Dylan Thomas, Miriam Williams a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau**: Cynghorwyr Angela Williams, Rhys Tudur, Anwen Jones, Tegid Jones, Gareth O.Davies, a Sion Aled Jones.

3. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod** y Cyngor gynhaliwyd ar 3ydd o Dachwedd 2022. Y Cadeirydd yn llofnodi ei bod yn gywir.

4. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Tachwedd 2022 gan y Cadeirydd.

5. **Datgan buddiant personol –** Cynghorydd Sian Angharad Parry – Eitem 12 - cais cynllunio Fferm Trefan, Llanystumdwy – creu pwll piswail - oherwydd ei bod yn berchennog yr eiddo.

6. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

7. **Dyfodol Cymunedau Cymraeg: galwad am dystiolaeth** - Mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn gofyn am sut y gellir cryfhau cymunedau Cymraeg. Mae cryfhau cymunedau Cymraeg yn ganolog i strategaeth Llywodraeth Cymru o ddyblu defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050. Sefydlwyd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwneud argymhellion a allai helpu cyflawni hyn.
Mae yna gwestiynau ymgynghori ac mae ymatebion yn cael eu gwahodd erbyn 13 Ionawr 2023.

Bydd Un Llais Cymru yn paratoi ymateb i'r ymgynghoriad hwn, a byddent **yn ddiolchgar i dderbyn ein ymateb neu ymateb ddrafft erbyn dydd Gwener 16 Rhagfyr 2022**. **Mae'r Cynghorydd Aled Lloyd Evans am anfon ebost at y Clerc, er mwyn pasio'r ymateb ymlaen.**

8. **Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC)** - fe wnaeth y Clerc fynychu'r cyfarfod a oedd yn cael ei gynnal drwy zoom ar 9.11.2022. Roedd yn cynnwys siaradwyr o bob maes allweddol megis newid hinsawdd, diweddaru y cyngor yn ddigidol, bioamrywiaeth a dyletswydd Adran 6, y pecyn cyllid a llywodraethiant newydd, cynlluniau bro a phwysigrwydd hyfforddiant a datblygu. **Mae angen creu adroddiad ar ddyletswydd**

**Bioamrywiaeth bob 3 mlynedd, (gwnaed yr un diwethaf Rhagfyr 2019) felly bydd y Clerc wedi gwneud drafft cyn cyfarfod mis Ionawr 2023.**

9. **Treth Cyngor: Ymgynghoriadau ar Reoliadau drafft i estyn eithriadau premiwm ail gartrefi ac ar ganllawiau.**
Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar reoliadau drafft i ddiwygio Dosbarth 6 o'r eithriadau i bremiwm y dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi. Mae yna gwestiynau ymgynghori ac mae ymatebion yn cael eu gwahodd erbyn 22 Rhagfyr 2022. **Penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd a bod croeso i unigolion anfon ymateb arwahan.**

10. **Hwb Iechyd Eifionydd -** cais gan Cyngor Cymuned Dolbenmaen, i'r cynghorau cyfagos ddod at ei gilydd a chydweithio ar y mater, sef fod "trefniadau cyswllt yr Hwb yn parhau i fod yn sal ac yn anerbyniol a bod pryder mawr parthed diffyg meddygon ar gyfnodau.
Y Clerc wedi derbyn ymateb gan Glerc Cyngor Dolbenmaen yn dweud ei bod wedi cael ymateb gan Gynghorau Cricieth a Phorthmadog hefyd, ac y bydd yn dod yn ol atom yn dilyn ei cyfarfod nhw nos Iau 01.12.2022.

11. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

12. **Cyngor Gwynedd** – cais cynllunio yn y gymuned

**Rhif Cais:C22/1065/41/LL - Fferm Trefan, Llanystumdwy**, - creu pwl piswail. **Dim gwrthwynebiad.**

13. **Cronfa Grant 'Croeso Cynnes 2022-2023'** – i grwpiau cymunedol yn awyddus i ehangu cyfleoedd i ddarparu gofod cyfarfod cynnes, dyddiad cau 08.12.2022. **Derbyn**.

14. **Cofnodion Gweithdy Ardal Ni Dalgylch Pwllheli**
Gweithdy Ardal Ni – Dalgylch Pwllheli , a gynhaliwyd ar y 28 o Fedi 2022. Mae'r mewnbwn i'r sesiwn yn allweddol wrth iddynt symud ymlaen i'r camau nesaf o ddatblygu Cynllun Gweithredu Ardal ar gyfer dalgylch Pwllheli.

Y Clerc wedi anfon y cofnodion o'r sgyrsiau fesul thema a gafwyd yn ystod y sesiwn at bawb. Er mwyn symud ymlaen gyda'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal fe fydd Alys Lloyd Jones – Swyddog Cefnogi Cymunedau Dalgylch Pwllheli mewn cyswllt a ni dros yr wythnosau nesaf. Bwriad y sgwrs yma fydd i gadarnhau rhai o'r prosiectau posib ddaeth allan o'r sesiwn, ac adnabod camau ar gyfer symud y prosiect yn ei flaen, er mwyn ein galluogi i gynnwys y wybodaeth yn y cynllun gweithredu ardal.

Maent yn gobeithio y bydd gennym gynllun gweithredu drafft erbyn diwedd Ionawr, ac y byddwn mewn cyswllt eto yn fuan yn y flwyddyn newydd er mwyn trefnu sesiwn i gyflwyno fersiwn drafft o'r cynllun gweithredu. Fe fydd y sesiwn yma yn gyfle i roi mewnbwn i'r cynllun, ac i ymateb i unrhyw fylchau yn y cynllun drafft. **Derbyn**.

15. **Rheilffordd Arfordir y Cambrian** - maent yn gwahodd cynghorau ar hyd Rheilffordd Arfordir y Cambrian i ymuno â SARPA, grŵp defnyddwyr rheilffordd sy'n pwyso i wella'r gwasanaeth rheilffordd. **Neb yn cynnig derbyn y gwahoddiad.**

16. **Uwchraddio offer cyfathrebu Cellnex, Chwilog** - cais cyn rhoi cais i'r Adran Cynllunio gan WHP Telecoms Ltd. **Cefnogi**.

17. **Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru – Caernarfon**
Cyfarfod cyhoeddus 25.11.22 - Liz Saville Robers AS a Mabon ap Gwynfor AS yn trafod y bwriad i gau canolfan Caernarfon a'r Trallwng.
Hefyd y Clerc wedi derbyn cais gan Andrew O'Regan, Arweinydd Ymgyrch Achub Safle Caernarfon i anfon llythyr o gefnogaeth gan y Cyngor dro beidio cau y safle. **Gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr yn gwrthwynebu symud y gwasanaeth i Rhuddlan, ar sail y pellter o'r ardal, y gost o feddwl ei fod yn elusen, ac mai cwmni o Loegr sydd wedi gwenud yr arolwg.**

18. **Y Lon Goed - gorchymyn diwygio map swyddogol o dan adran 53, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981**- cais wedi cael ei osod ar ddarn o'r Lon Goed, gan y Gymdeithas Ceffylau Prydeinig.

- Maent wedi gofyn am gael cofrestru cilffordd cyfyngedig rhwng pwyntiau C-D ar y Map a Datganiad Swyddogol (MDS), oherwydd nid oes statws cyhoeddus i'r rhan yma ar hyn o bryd, ac
- eisiau uwchraddio'r llwybr troed presennol (rhif 70A) rhwng C ac E i gilffordd gyfyngedig.

Mae pwynt rhwng C – D sef darn o lon breifat (sydd ddim yn lwybr cyhoeddus nac yn ddarn o'r Lon Goed) o'r lon fawr ger Plas Hen hyd at y Lon Goed i gyfeiriad Beudy Newydd, at y darn rhwng C i E, sef sef heibio Gaerwen i gyfeiriad Coed Cae Du.
Byddai hyn yn ei galluogi wedyn i farchogaeth ceffylau ar hyd y darn yma o'r Lon Goed.
Gwneir y cais ar y sail fod yr ymgeisydd yn credu fod tystiolaeth ddogfennol yn dangos fod cilffordd gyfyngedig yn bodoli rhwng pwyntiau D-C-E.
Mae cilffordd gyfyngedig yn fath o hawl tramwy sy'n caniatau mynediad cyhoeddus naill ai ar droed, beicio, marchogaeth neu arwain ceffyl, neu gyda cheffyl a throl.

Fe drafodwyd y mater yma mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar 06.01.2022, ac ar y pryd penderfynwyd gwrthod y cais,
**"ar y sail fod nifer o bobl, plant, ysgolion, a chwn yn cerdded ar hyd y Lon yn gyson drwy'r flwyddyn. Byddai cael ceffylau yn mynd ar hyd y Lon felly'n creu perygl i gerddwyr. Mae hefyd ceir y trigolion sydd yn byw ar hyd y rhan yma o'r Lon Goed, yn ogystal a pheirianau a thractorau yn teithio arni'n gyson. Yn ogystal a hyn mae darnau gwlyb ar hyd y darn yma o'r Lon, a byddai ceffylau'n gwneud y sefyllfa'n llawer gwaeth".**

**Mae Cyngor Gwynedd eisiau ymateb, gyda chymaint o wybodaeth cefndir ag sydd bosib, erbyn 09.12.2022. Cytunwyd y byddai y Cynghorwyr Margaret Griffith ac Aled Lloyd Evans yn ceisio darparu ymateb ac yna cysylltu hefo'r Clerc.**

**Materion yn y gymuned**.

19. **Llanystumdwy**
a) **Palmant rhwng y Neuadd am y bont** – mae'r palmant yn gul iawn a sawl twll ynddo (ger Swn-yr-Afon), ac yn anaddas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, ac angen palmant wedi gostwng ('dropped curb') cyn croesi'r lon am y bont. **Bydd y gwaith yn cael ei ychwanegu i raglen waith gweithlu'r Adran Priffyrdd. Derbyn.**

b) **Pont Llanystumdwy** – Gostwng Lefel Cerbiau
Bydd swyddog o'r Adran Priffyrdd yn cael cyfarfod gyda'r Adran Draffig yn ystod y dyddiau nesaf i drafod ein cais i ostwng lefel cerbiau er gwella mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn.
**Derbyn**.

20. **<u>Problem Parcio ger Mynwent Llanystumdwy</u>**
Derbyniwyd ymateb gan Mr Gareth Roberts, Peiriannydd Ardal Dwyfor, Priffyrdd a Bwrdeistrefol am statws ffyrdd o gwmpas y fynwent.
Eglurwyd fod y cynllun yn dangos y ffyrdd mabwysiedig gyda llinell fain lawr y canol, mewn coch a glas. Dyma hyd y ffordd sydd yn gyhoeddus a chyfrifoldeb yr Adran Priffyrdd yw hon. Dywedodd fod yr hen lon wedi'i ddangos mewn oren. Mae'n ymddangos fod y ffordd yma wedi cael ei gau drwy broses gyfreithiol ('stopping up order' mewn Saesneg) ac erbyn hyn ym mherchnogaeth perchennog y goedlan i'r gogledd. Nid oedd ganddo fanylion pellach i'r person yma, dim ond y Woodlands Trust sy'n dangos ar system Cofrestru Tir.
Eglurodd fod y llain o dir o flaen y chwarel, wedi cael ei gadw fel rhan o'r brifffordd ac mewn effaith yn 'highway verge'. Nid oes defnydd penodol iddo ac yn anffodus oherwydd y gwahaniaeth lefelau rhwng y tir yma a'r brifffordd nid yw'n ddefnyddiol ar gyfer parcio. Roedd yn meddwl fod y llecyn yma yn parhau fel priffordd oherwydd presenoldeb cyfarpar tanddaearol gan BT. Roedd y caead yn amlwg yn ystod y cyfarfod safle, ac yn gyfreithiol mae'n ofynnol i'r Awdurdod Priffyrdd cadw mynediad clir i gyfarpar fel hyn. Mae tir preifat yr hen chwarel yn cychwyn tu hwnt i'r llecyn mewn gwyrdd, a hawl mynediad sydd ganddynt dros y llecyn gwyrdd yma.

Petai angen ystyried defnyddio'r hen ffordd fel ar gyfer parcio achlysurol yna nid oes angen hawl penodol i groesi'r tir mewn gwyrdd, mae hwnnw'n gyhoeddus, ond bydd angen hawl y tirfeddiannwr i ddefnyddio'r rhan mewn oren. Fel nododwyd uchod, nid oedd ganddo fanylion y tirfeddianwr yma, ac efallai holi trwy'r Woodlands Trust fyddai orau i gael y wybodaeth yma. **<u>Ar ol ystyried yr holl wybodaeth yma, gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr at Bwyllgor y Fynwent, i efallai cysidro gofyn wrth yr ymgymerwyr ddarparu 'cones' ac arwyddion rheoli traffig pan fyddai angladdau mawr yn cael ei cynnal yno.</u>**

21. **<u>Rhoslan/Ynys</u>**

22. **<u>Chwilog</u>**
**<u>Uwchraddio Cae Chwarae Chwilog</u>**
Y Cynghorydd Rhys Tudur wedi trefnu cyfarfod ar nos Iau 10.11.2022 am 7:30 a daeth 6 o reini'r ysgol a'r Clerc yno. Cafwyd sgwrs drwy linc rhithiol gan Swyddog o Cyngor Gwynedd, a wnaeth egluro byddai'n bosib i bwyllgor arwahan fel Pwyllgor Rhieni gael trwydded i wneud cais am arian grant i gael offer ychwanegol ac uwchraddio'r cae, drwy ffynhonellau fel y Loteri. Byddai Cyngor Gwynedd yn gallu rhoi cymorth i wneud y cais am grant, a Chyngor Gwynedd fyddai'n dal i fod yn gyfrifol am y safle, o ran cynnal a chadw, torri gwair, ac yswiriant. **<u>Penderfynwyd cynnal cyfarfod eto nos Iau 08.12.2022 am 7:30 i drafod y bwriad o sefydlu pwyllgor yn y pentref i wneud hyn.</u>**

23. **<u>Diffibriliwr Chwilog</u>** – Y Clerc wedi gwneud ymholiadau i gael grant gan 'Achub Bywyd Cymru' i gael diffibriliwr arall yn y pentref oherwydd fod y pentref yn cynyddu. Dywedwyd na fyddai modd cael un arall oes oedd un yno'n barod o fewn 500 medr i un arall, ac mae un o flaen y Neuadd yn barod. **<u>Penderfynwyd gadael y mater yma am y tro.</u>**

24. **<u>Creu maes parcio yn Chwilog</u>** – derbyniwyd ymholiad yn holi tybed a fyddai modd dwyn perswad ar Cyngor Gwynedd i wneud cais am gael prynu rhan o'r tir sydd ar werth ger Ael y Bryn er mwyn creu maes parcio ar gyfer yr ysgol, y neuadd a'r capeli. Roedd Pwyllgor Llywodraethwyr Ysgol Chwilog yn bryderus iawn oherwydd fod problemau cyson am le i barcio yn y bore a'r prynhawn. **<u>Y Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ddatgan ein pryderon.</u>**

25. **Pencaenewydd/Sardis**
26. **Llangybi**

27. **Materion Ariannol**

**Adroddiad Ariannol** gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 01.12.2022. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. (Y Clerc wedi trefnu i ddangos y biliau i gyd i'r Cadeirydd i'w llofnodi a'i awdurdodi yn dilyn y cyfarfod cyn ei talu).

28. **Archwilio allannol** – dal heb dderbyn ymateb ganddynt eto.
Derbyniwyd ebost gan Llywodraeth Cymru yn son am baratoi a chyhoeddi cyfrifon ariannol statudol ar gyfer 2021 – 2022.
Y disgwyl ar hyn o bryd yw y bydd yr offeryn statudol sy'n diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 mewn grym o 3 Rhagfyr 2022 a bydd y diwygiad i'r Cod yn cael ei gymeradwyo erbyn canol mis Tachwedd. Yn unol â hynny, maent yn awgrymu y dylai cydweithwyr geisio cyhoeddi cyfrifon archwiliedig terfynol erbyn 31 Ionawr 2023.
Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gwneud darpariaeth eisoes ar gyfer awdurdod yn gorfod oedi wrth baratoi a chyhoeddi ei gyfrifon ariannol blynyddol. Yn rhinwedd rheoliad 10(4), mae awdurdodau yn gallu cynnwys nodyn ar wefannau i ddweud pam nad ydynt wedi paratoi neu gyhoeddi eu cyfrifon o fewn y terfynau amser presennol i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. **Y Clerc am roi hysbysiad ar y wefan i egluro ein bod yn disgwyl i Archwilio Cymru orffen y gwaith o archwilio'r dogfennau am y flwyddyn 2021-2022.**

29. **Gohebiaeth gan Is-Adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol ynglŷn â swm priodol gwariant o dan Adran 137(4)(a)** o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatau i'r cyngor cymuned wario ar weithgarwch nad oes ganddynt bwerau penodol yn ei cylch. Mae hyn os bydd y Cyngor yn ystyried bydd y gwariant o fudd uniongyrchol i'r ardal, rhai o'r trigolion neu'r holl drigolion, cyn belled a bod y gost yn gyson a'r budd. Yr uchafswm y gellir ei wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-2023 fydd £8.82, a £9.93 rhwng 2023-2024 am bob etholwr. **Derbyn**.

30. **Praesept** – am y flwyddyn 2023-2024. Trafodwyd y mater yn y cyfarfod Busnes/Cyllid 06.10.2022, ac fe awgrymwyd y dylid ei godi o £18,360.00 i £19,000.00 o'r 01.04.2023 ymlaen. Mae hyn tua 3% o gynnydd sydd yn is na chwyddiant, o gysidro fod prisiau popeth yn codi. **Cytunwyd i godi'r ffigwr yma, sef £19,000.00 am y flwyddyn sydd yn dod.**

31. **Cof Eifionydd**–Cynghorydd Rhys Tudur wedi trefnu cyfarfod yn Neuadd Chwilog 24.11.2022. Bydd angen penderfynu sefydlu pwyllgor, a dewis technegydd i wneud y wefan, a phenderfynu beth fydd y camau nesaf. Mae ffurflen awdurdodi rhyddhau gwybodaeth ar unrhyw lwyfan agored megis wicipedia wedi cael ei chreu. Trefnir cyfarfod eto yn ystod Ionawr 2023.

32. **Cyfraniad ariannol i bentrefi/ardaloedd o fewn ffiniau Cyngor Cymuned Llanystumdwy**
Derbyniwyd ymholiad o ystyried yr ymdrech wnaed gan bentrefi Ceredigion i groesawu'r Eisteddfod eleni, tybed a ddylid ystyried rhoi rhywfaint o gyfraniad ariannol i'r pentrefi/ardaloedd o fewn ffiniau'r Cyngor Cymuned i brynu baneri/bynting ac yn y blaen i'w gosod mewn llefydd amlwg, megis cylchfan Afonwen, neu ar groesffordd i ddangos ein

croeso i'r Eisteddfodwyr fydd yn crwydro Eifionydd. Bydd angen i wahanol sefydliadau wneud cais i’r cyngor cymuned.

33. **Elusen William Ellis** – trafodwyd y cais am gyfraniad o’r Elusen a dderbyniwyd drwy’r post cyn 30.11.2022 hefo Cynghorwyr Llanystumdwy a oedd yn bresennol, sef Cynghorydd Sian Parry, Miriam Williams, Darren Morley a’r Clerc ar ddiwedd y prid gyfarfod. Roedd hyn yn sgil rhoi hysbyseb yn Y Ffynnon ac ar yr hysbysfwrdd yn Llanystumdwy fis Tachwedd 2022. Mae’r manylion arwahan gyda gohebiaeth yr Elusen gan y Clerc. Bydd y Cynghorydd Sian Parry yn llofnodi’r cofnodion arwahân yn dilyn y cyfarfod.

34. **Cyflog Clerc** – derbyniwyd gwybodaeth gan Un Llais Cymru 03.11.2022, yn cadarnhau fod Y Gwasanaethau Llywodraeth Leol (NALC) wedi codi cyflog clercod yn nol i’r 01.04.2022. Bydd graddfa cyflog y Clerc felly’n codi o fod yn £11.50 i fod yn £12.50 yr awr. Mae’r raddfa yn aros yr un fath ers 01.04.2022, sef pwynt rhif 11, (mae graddfa cyflog y Clerc rhwng rhif 7 – 12). **Felly mae cyflog y Clerc a’r Swyddog Ariannol Cyfrifol o 01.04.2022 ymlaen yn £12.50 yr awr x 35 awr y mis = £437.50 (yn lle £402.50 y mis). Cytuno, a bod y Clerc yn dangos y manylion i’r Cadeirydd yn dilyn y cyfarfod.**

35. **Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol** gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor wedi cael ei roi yn rhifyn Tachwedd a Rhagfyr 2022 o’r Ffynnon, ac ar yr hysbysfyrddau gyda dyddiad cau 15.01.2023.

36. **Enwau pontydd**
Y Clerc wedi holi i weld os byddai Cyngor Gwynedd yn fodlon gosod y 9 enw pont isod ar ein rhan yn ddi-gost. Derbyniwyd ateb gan Mr Osian Richards, yn cadarnhau y gwnai drafod hyn gyda Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd, ac gweld os byddai’n fodlon ychwanegu hyn i rhaglen waith yr adran y flwyddyn ariannol nesaf. **Penderfynwyd i aros a gweld beth oedd ei ymateb gyntaf.**

- **Pont y Felin** (sef Pont Melin Plas Du)
- **Pont Gaerddu Bach**
- **Pont Ffridd Lwyd** (Pont Afonwen) ar y briffordd
- **Pont Llanystumdwy**
- **Pont Rhydygwystl**
- **Pont y Felin, Chwilog**
- **Pont yr Inn, Chwilog**-(byddai Garej Pandy ger hon cyn symud i Benygroes, Llanystumdwy)
- **Pont Ty’n Gors**, ger Ty’n Gors, Llanarmon
- **Pont Glandwr** (Stesion Llangybi)

37. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| SLCC<br>BK208251-1 | Cynhadledd rhithiol Un Llais Cymru a SLCC 09.11.22 | **45.00** | **9.00** | **54.00** | **54.00** |
| Alun Owen,<br>Saer Coed | Trwsio hysbysfwrdd Rhoslan | **35.00** | **7.00** | **42.00** | **42.00** |
| Euros Hughes(1943) | Trydanwr, gosod 2 diffibriliwr | **250.00** | **50.00** | **300.00** | **300.00** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *(Y Cadeirydd wedi llofnodi hwn i gael taliad,oherwydd roedd i fod ar y rhaglen.)* | | | | |

38. Cyflog mis Tachwedd 2022 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Tachwedd 2022<br>35 awr y mis x £12.50 = £437.50<br>(ac ol-daliad codiad cyflog o £11.50 - £12.50 yr awr rhwng 01.04.2021 – 31.10.2022, sef £1.00 yn fwy yr awr x 35 awr y mis=£35.00 x 7 mis = £245.00<br><br>12 awr ychwanegol wnaed mis Hydref 2022 = £12.00 | 437.50<br><br>245.00<br><br>12.00<br>**694.50**<br>Llai treth<br>£139.00= **£555.50** | **555.50** | **555.50** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Tachwedd 2022 a'r ol-daliad | £695.00 x 20% = **£139.00** | **139.00** | **139.00** |
| Costau Clerc mis Tachwedd 2022 | **£16.00** | **16.00** | **16.00** |

**Mater wedi cyrraedd rhy hwyr i'w gynnwys ar y rhaglen wreiddiol.**

39. Cais Cynllunio - **Rhif cais: C22/1093/41/LL – Coed Cae Gwyn, Llangybi. LL53 6DQ** - codi storfa slyri uwchben daear. **Cefnogi**

Cytunwyd mai ar y nos Iau **12.01.2023** fydd y cyfarfod nesaf yng Nghapel Pencaenewydd a drwy zoom.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**